# Bwletin y Farchnad HCC

Ebrill 2022


> **Mae'r sector cig coch yn bwysig iawn i Gymru a'r sector amaethyddol. Yn dilyn Brexit a phandemig Covid-19, mae'r sector wedi wynebu ansicrwydd a heriau, gyda chytundebau masnach newydd a newidiadau mewn taliadau cymorth amaethyddol yn debygol o waethygu hyn. Bydd y Bwletin Marchnad hwn yn edrych ar yr incwm ffermydd a ragwelir yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, ynghyd ag effeithiau chwyddiant ar y sector.**
>
> **Glesni Phillips – Dadansoddwr Data**



## Incwm Ffermydd 2020/21

Mae'r cyhoeddiad '*Rhagolwg o incwm ffermydd yng Nghymru*' a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn rhoi cipolwg ar dueddiadau hirdymor o fewn incwm ffermydd yng Nghymru. Ar gyfer 2020/21, rhagwelwyd y byddai incwm busnes cyfartalog fferm wartheg a defaid mewn ardaloedd llai ffafriol (ALFf) wedi cynyddu 32% ar y flwyddyn i £29,900 y fferm. Mae'r cyfartaledd wedi cynyddu am yr ail flwyddyn yn olynol yn dilyn y cyfartaledd isel a gofnodwyd yn 2018/19, a dyma'r cyfartaledd uchaf a gofnodwyd ers 2011/12. Rhagwelir y bydd y cynnydd mewn incwm o ganlyniad i gynnydd mewn allbwn fferm, ynghyd â chostau busnes tebyg o flwyddyn i flwyddyn (mae'r cyhoeddiad ar gyfer Ebrill 2020 i Fawrth 2021 felly ni fyddai'r cynnydd diweddar mewn prisiau mewnbwn yn cael ei ddangos). O fewn y mathau o ffermydd sy'n ffurfio ffermydd ALlFf; rhagwelwyd y byddai'r incwm cyfartalog ar gyfer ffermydd defaid SDA yn parhau'n gryf ac yn profi cynnydd o 24% (ar brisiau cyfredol) i £40,000 – yr uchaf mewn sawl blwyddyn.

Yr incwm a ragwelwyd ar gyfer fferm wartheg a defaid ar yr iseldir yng Nghymru oedd £22,900 ar gyfer 2020/21 – cynnydd o 38% ar ffigur y flwyddyn flaenorol. Yn dilyn dwy flynedd yn olynol o ostyngiadau mewn incwm, mae'r cyfartaledd bellach wedi codi i fod yn fwy unol â chyfartaledd 2016/17 yn dilyn gostyngiad o 9% o flwyddyn i flwyddyn mewn costau busnes fferm. Gall cyfnewidioldeb yn y sector ffermio arwain at newidiadau canrannol mawr mewn incwm ffermydd rhwng pob blwyddyn. Fodd bynnag, mae blwyddyn ariannol 2020/21 wedi cofnodi'r gyfran uchaf o ffermydd ag incwm o £50,000 o leiaf mewn nifer o flynyddoedd, sef 12.5%. Fodd bynnag, cofnododd dros 10% o'r ffermydd incwm negyddol yn ystod y flwyddyn.




*Ffynhonnell: Incwm Ffermydd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2020/21*

## Effaith Chwyddiant

Mae costau mewnbynnau allweddol ffermydd megis bwyd anifeiliaid, tanwydd a gwrtaith yn arbennig wedi cynyddu'n ddramatig o'u cymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach a lefelau hanesyddol.

- Roedd cyfartaledd diesel coch y DU ar gyfer mis Mawrth 2022 yn 96.0ppl, sydd 36.1ppl yn uwch na mis Mawrth 2021, yn ôl AHDB.
- Mae prisiau gwrtaith amoniwm nitrad wedi mwy na dyblu yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chostau gwrtaith yn cynyddu'n sylweddol yn ystod tymor yr Hydref 2021. Arweiniodd hyn at rai cynhyrchwyr yn lleihau'r defnydd o wrtaith, a fydd yn ei dro yn effeithio ar gynnyrch cnydau yn y dyfodol.
- Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin hefyd wedi amharu ar lif masnach rhai nwyddau.

Mae'n anochel y bydd y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn rhoi pwysau ar broffidioldeb y farchnad cig coch. Mae rhai dangosyddion bod ymddygiad defnyddwyr yn newid, a allai roi mwy o bwysau ar y farchnad.

- Yn ystod mis Ebrill 2022, cyflymodd chwyddiant prisiau bwyd i +5.9% - y lefel uchaf ers mis Rhagfyr 2011 *(ffynhonnell: Kantar)*.
- Mae rhai siopwyr yn lliniaru cynnydd mewn prisiau drwy newid i fanwerthwyr 'disgownt'.
- Yn ôl Kantar, gostyngodd cyfanswm gwerthiannau bwyd o 10% ar y flwyddyn o ran cyfaint yn ystod y 4 wythnos a ddaeth i ben ar 20 Mawrth 2022, oherwydd llai o anghenion yn y cartref, prisiau tanwydd yn cyfyngu ar deithio, ac o bosibl newid fydd yn para'n hirach o siopa 'ychydig ac yn aml' yn dilyn y cyfnodau clo niferus.
- Gallai'r ymddygiadau dirwasgiad a arddangosir gan siopwyr wrth iddynt fod mwy darbodus effeithio ar faint o gig coch sy'n cael ei werthu – yn enwedig ar gyfer y proteinau drutach hynny, megis cig oen.

Er bod costau mewnbwn yn cynyddu, mae prisiau ffermydd yn parhau'n gadarn ar hyn o bryd.

- Mae prisiau pwysau marw cyfartalog gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr wedi rhagori ar y marc £4/kg a gyrhaeddwyd y llynedd, gyda chyfartaleddau bustych presennol tua 9% yn uwch na'r hyn a gafwyd y llynedd.
- Gwartheg difa sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf arwyddocaol mewn prisiau yn ystod chwarter 1 o 2022, gyda'r prisiau pwysau marw presennol dros £1/kg yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd. Mae cyflenwad tynn, ynghyd â'r galw am ddarnau rhatach fel briwgig, yn rhoi cymorth i'r farchnad hon. Efallai y bydd prisiau gât y fferm uwch yn annog cynhyrchwyr i gyflwyno gwartheg, gan arwain at fwy o gyflenwad yn ystod mis Mawrth.
- O ran y farchnad ddefaid, mae cyfartaleddau ŵyn wedi aros yn sefydlog yn ystod cyfnod y Pasg, tra bod gŵyl Foslemaidd Ramadan wedi rhoi cymorth i'r farchnad mamogiaid difa.

Wrth i chwyddiant barhau i godi'n gyflym, mae'n anodd rhagweld tueddiadau galw am gig coch wrth i ddefnyddwyr deimlo'r wasgfa ar eu gwariant cartref.

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn gorffen 23 Ebrill

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **248.2c/kg**. Roedd hyn:

- +8.7c ar yr wythnos flaenorol,
- +27c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 53c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 195.2c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **436.6c/kg**. Roedd hyn:


- +1.5c ar yr wythnos flaenorol,
- +35.2c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 434.9c/kg (+1.8c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 428.9c/kg (+4.5c), a gwartheg difa yn 354.0c/kg (+2.8c).

### Trwybwn – Mawrth 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 241,700 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 174,700 pen - i lawr 1% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -1%, heffrod +1%, a theirw ifanc -4%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 348.4kg (+1.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 57,500 pen - cynnydd o 9% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn gorffen 23 Ebrill

Roedd y SQQ pwysau byw ŵyn dethol cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn **287.0c/kg**. Roedd hyn:

- +11.1c ar yr wythnos flaenorol,
- -19.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 48c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd o 238.9c/kg.


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£97.10/pen**. Roedd hyn:


- - £2.40 ar yr wythnos flaenorol,
- + £12.50 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 597.9c/kg (+2.5c ar yr wythnos).

### Trwybwn – March 2022

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn ar gyfartaledd = 21.0kg (yr un fath â blwyddyn yn gynharach).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 115,700 pen – cynnydd o 12% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 16 Ebrill

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **167.8c/kg**. Roedd hyn:

- +3.4c ar yr wythnos flaenorol,
- +20c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- Bron i 15c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 153.1c/kg).

Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu nad yw'r gwelliant a welwyd ym mhrisiau ffermydd yn ddigon i dalu am gostau cynhyrchu, tra bod y ffigurau trwybwn ar gyfer mis Mawrth yn dangos bod moch trymach yn cael eu prosesu o ganlyniad i lawer ohonynt ar y fferm am fwy o amser na'r disgwyl.

### Trwybwn – Mawrth 2022

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 1.08 miliwn pen – cynnydd o 0.5% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 1.06 miliwn pen – cynnydd o 0.2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 92.5kg (4kg yn drymach ar y flwyddyn).
- Trwybwn hychod a baeddod = 28,000 pen – cynnydd o 14% ar y flwyddyn.

